

12 Rhagfyr 2017

Annwyl Gyfaill

Ymchwiliad i wneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel


Ers fy neges e-bost dyddiedig 24 Tachwedd, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cyhoeddi y [cynllun economaidd](#).

Fel y dywedais yn fy neges, mae'r Pwyllgor am gael eich barn am y cynllun, yn ogystal ag unrhyw sylwadau neu ddatblygiadau pellach mewn perthynas â chylch gorchwyl yr ymchwiliad ers inni gael tystiolaeth gennyh ddiwethaf. Mae hyn i sicrhau bod gwaith craffu y Pwyllgor yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol, cyn i adroddiad yr ymchwiliad gael ei gyhoeddi.

Fel y gwyddoch, gohiriwyd sesiwn dystiolaeth ddiwethaf y Pwyllgor gydag Ysgrifennydd y Cabinet, ysywaeth. Byddwn yn cael tystiolaeth yn yr ymchwiliad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth a chan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes **ddydd Iau 25 Ionawr**, gan gyhoeddi ein ganfyddiadau wedi hynny.

Byddem yn ddiolchgar felly pe baech yn ymateb gyda'ch barn am y cynllun economaidd, ac unrhyw ddatblygiadau pellach, erbyn **dydd Llun 15 Ionawr**.

Yn gywir,



Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

